

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales



WALES **AUDIT** OFFICE  
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Adroddiad Archwilio Blynyddol 2015

## **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

**Cyhoeddwyd:** Ionawr 2016

**Cyfeirnod y ddogfen:** 734A2015

# Statws yr adroddiad

---

Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partion perthnasol.

Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partion perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru:

[swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru)

Roedd y tîm a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn yn cynnwys John Herniman, David Thomas, Andrew Doughton, a Claire Worrall.

# Cynnwys

---

Adroddiad cryno	4
Adroddiad manwl	
Ynglŷn â'r adroddiad hwn	8
Adran 1: Archwilio cyfrifon	9
Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2014-15. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, dygais sawl mater i sylw swyddogion y Pwyllgor Archwilio a chyflwynais adroddiad sylweddol i gyd-fynd â'm barn archwilio	9
Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau	13
Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i reoli cyllidebau a monitro cynlluniau arbed yn effeithiol ond mae maint yr arbedion sydd eu hangen yn ystod y tair blynedd nesaf yn golygu y gallai fod yn fwyfwy anodd cynnal y sefyllfa ariannol a ddymunir	13
Mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu gweledigaeth glir ac yn hyrwyddo diwylliant sy'n canolbwyntio ar ansawdd, gyda thystiolaeth o welliannau parhaus i'w drefniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli risg a pherfformiad	15
Yn fy ngwaith archwilio perfformiad, canfuwyd cyfleoedd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau mewn sawl maes allweddol	18
Atodiadau	
Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf	26
Ffi archwilio	27
Y prif risgiau wrth archwilio	28

# Adroddiad cryno

---

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2015.
2. Mae'r gwaith yr wyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.
3. Yn fy ngwaith archwilio canolbwytiais ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am agweddau penodol fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a'u cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Gellir gweld yr adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf yn [Atodiad 1](#).
4. Cytunwyd â'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Fe'i cyflwynir gerbron y Bwrdd ar 27 Ionawr 2016, a darperir copi i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd. Anogwn y Bwrdd Iechyd yn gryf i gyhoeddi'r adroddiad hwn ar raddfa ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru ([www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)).
5. Ceir crynodeb o'r prif negeseuon o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Adran 1: Archwilio cyfrifon

6. Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2014-15. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, dygais sawl mater i sylw swyddogion y Pwyllgor Archwilio. Mae a wnelo'r rhain â chamddatganiadau sydd wedi'u cywiro ac un mater yn gysylltiedig â goruchwyllo'r broses adroddiadau ariannol sy'n gysylltiedig â chwblhau'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r defnydd o'r adroddiad hwnnw.
7. Yn ogystal, cyflwynais adroddiad sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â'm barn archwilio. Mae fy adroddiad yn egluro'r ddwy ddyletswydd ariannol newydd a gyflwynwyd ar 1 Ebrill, 2014 drwy Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, perfformiad y bwrdd iechyd lleol yn eu herbyn, a'r goblygiadau ar gyfer 2015-16.
8. Rwyf hefyd wedi dod i'r casgliad:
  - bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi mewn modd priodol ac yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
  - bod gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth effeithiol er mwyn lleihau'r risg o gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol; a
  - bod gweithgarwch y Bwrdd Iechyd o ran rheolaeth a ystyriwyd gennym yn rhan o'r archwiliad yn cael ei reoli'n briodol, ac yn mynd rhagddo'n unol â'r bwriad
9. Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2014-15. Ceir mwy o fanylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheoli ariannol yn [Adran 2](#) yr adroddiad hwn.

---

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

- 10.** Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. Mae hyn yn cynnwys fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig lle archwiliwyd trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, digonolrwydd ei drefniadau llywodraethu, a'r cynnydd a wnaed o ran y problemau a nodwyd y llynedd yn gysylltiedig â gwelliant. Mae adolygiadau archwilio perfformiad hefyd wedi cael eu cynnal ar feysydd darparu gwasanaeth penodol. Yn sgil y gwaith hwn, deuthum i'r casgliadau canlynol:

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i reoli cyllidebau a monitro cynlluniau arbed yn effeithiol ond mae maint yr arbedion sydd eu hangen yn ystod y tair blynedd nesaf yn golygu y gallai fod yn fwyfwy anodd cynnal y sefyllfa ariannol a ddymunir.

- 11.** Yn 2014-15, fel y blynyddoedd cynt, dangosodd y Bwrdd Iechyd reolaeth ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn. Bu'r rheolaeth hon, ynghyd â'r cyllid ychwanegol a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn, yn fodd i sicrhau cyllideb cytbwys yn 2014-15.
- 12.** Ceir diffyg yn yr arbedion a gynlluniwyd yn 2015-16, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn dibynnu ar gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwireddu'r arbedion sydd wedi'u cynllunio, gan awgrymu nad oes modd sicrhau na chynnal cyllideb gytbwys yn y tymor canolig.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu gweledigaeth glir ac yn hyrwyddo diwylliant sy'n canolbwyntio ar ansawdd, gyda thystiolaeth o welliannau parhaus i'w drefniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli risg a pherfformiad

- 13.** Nodir amcanion strategol y Bwrdd Iechyd yn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI). Mae'r cynllun hwnnw wedi cael ei ystyried a'i herio'n dda gan y Bwrdd, ac fe'i cymeradwywyd gan y Gweinidog ym mis Mehefin 2015. Fodd bynnag, mae cynllun y Bwrdd Iechyd yn dibynnu'n drwm ar benderfyniadau allweddol sydd yn debygol o gael eu gwneud yn 2016 ynghylch yr achosion busnes Dyfodol Clinigol a'r Ganolfan Gofal Critigol Arbenigol. Os bydd yr achos busnes yn cael ei ohirio neu ei wrthod, gallai hynny beri bod gwasanaethau'n fwyfwy bregus gan nad oes cynllun arall clir yn ei le.
- 14.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi elwa ar barhad ei strwythur trefniadol. Mae hyn wedi bod o gymorth i sicrhau trefniadau ffurfiol i ddirprwyo atebolrwydd gweithredol ym mhob maes busnes. Fodd bynnag, nid yw'n glir a yw strwythur y sefydliad yn llwyr alluogi'r math o newid llwybr ar draws adrannau fydd yn ei gwneud hi'n bosibl i wireddu gweledigaeth ac amcanion y Bwrdd Iechyd.
- 15.** Mae gan y sefydliad Fwrdd effeithiol ac mae'n dangos ei fod yn rheoli materion a risgiau presennol; fodd bynnag, bydd angen datblygu ei drefniadau i fodloni deddfwriaeth newydd Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 16.** Mae'r strwythur pwyllgorau'n cefnogi trefniadau llywodraethu da, ac fe geir tystiolaeth bod y trefniadau'n gwella'n barhaus. Ceir hefyd lefel resymol o ryngweithredu rhwng y

---

pwyllgorau amrywiol, sy'n cefnogi trefniadau i drawsgyfeirio pryderon. Fodd bynnag, nid yw'r sicrwydd a roddir gan is-bwyllgorau na'r sicrwydd gan grwpiau i bwyllgorau yn gwbl effeithiol eto. Mae angen dulliau mwy eglur hefyd ar gyfer gwaith olrhain a monitro'r Bwrdd Iechyd mewn ymateb i argymhellion archwilio allanol.

17. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau'n gyson i ddatblygu ei wybodaeth reoli er mwyn helpu i sicrhau ei fod yn cefnogi proses effeithiol ar gyfer craffu a phenderfynu. Y mae hefyd yn mireinio ei ddull o reoli risg er mwyn rhoi mwy o sylw i'r claf a datblygu dealltwriaeth gliriach ynghylch yr awydd am risg.
18. Lle bo'n briodol, mae gan y Bwrdd wybodaeth addas ynglŷn â'i berfformiad, ynghylch risgiau allweddol cysylltiedig a champau unioni. O ystyried y pwysau ar wasanaethau a'r cefndir o lynder, mae'r Bwrdd Iechyd yn cyrraedd lefel resymol o berfformiad mewn sawl maes. Fodd bynnag, ceir pwysau cynyddol ar wasanaethau gofal wedi'u trefnu a heb eu trefnu.
19. Mae fframwaith priodol wedi'i sefydlu i gefnogi trefniadau da ar gyfer llywodraethu gwybodaeth. Mae trefniadau Caldicott wedi'u datblygu'n dda, ac mae lle i sicrhau gwelliannau pellach.

**Yn fy ngwaith archwilio perfformiad, canfuwyd cyfleoedd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau mewn sawl maes allweddol.**

20. Dyma ganfyddiadau'r gwaith a gwblheais yn ystod y flwyddyn:
  - Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu agenda uchelgeisiol a gyfer newid, ac mae rhaglenni newid strategol yn dechrau tanategu cyflawniad y CTCl. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio ei ddull ymgysylltu i gasglu safbwyntiau rhanddeiliaid er mwyn cael gwybodaeth am ansawdd gwasanaethau. Y mae hefyd yn cyflwyno nifer o welliannau er mwyn mynd i'r afael â risgiau gweithredol i'r gweithlu, ond mae angen iddo gyfleu dyluniad ei weithlu'n fwy eglur yn rhan o'r gwaith i drawsnewid gwasanaethau.
  - Yn fy adolygiad o'r gwasanaeth orthopedig, canfŷm fod lle i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau orthopedig er mwyn ateb galw cynyddol ac i sicrhau canlyniadau gwell i gleifion.
  - Er gwaethaf y lefelau isel o staff a'r llwyth gwaith trwm, canfŷm yn fy adolygiad o'r Rheolaeth ar Feddyginiaethau fod y berthynas rhwng staff y fferyllfa a staff y ward yn dda, gan gynnwys agweddau effeithiol ar drefniadau corfforaethol ac ar rai prosesau rheoli meddyginiaethau.
  - Adolygais y modd y mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli ei apwyntiadau dilynol i gleifion allanol yn rhan o'm rhaglen waith fandadol. Canfŷm drwy'r gwaith hwn fod gwybodaeth am raddfa'r oedi cyn cynnal apwyntiadau dilynol i gleifion allanol wedi gwella, ond bod gan y Bwrdd Iechyd fwy o waith i'w wneud er mwyn canfod beth yw'r galw gwirioneddol, asesu risgiau clinigol, gwella trefniadau craffu'r Bwrdd a moderneiddio gwasanaethau i gleifion allanol.
  - Er bod llai o arian yn cael ei fuddsoddi mewn TGCh, dengys fy ngwaith diagnostig fod yr adnoddau TGCh yn y Bwrdd Iechyd yn cefnogi darpariaeth

---

gofal iechyd ar y cyfan, er bod lle i integreiddio systemau a chryfhau trefniadau hyfforddi.

- Er bod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i wella'r gwasanaeth nyrsio ardal yn rhan o'r ddarpariaeth ehangach o wasanaethau yn y gymuned, mae angen mynd i'r afael o hyd â llawer o'r problemau a nodais yn fy ngwaith archwilio blaenorol. Mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn bwriadu canolbwyntio ar fodolau integredig ar gyfer gofal yn y gymuned a gofal sylfaenol.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd wrth ymateb i'm cyd-adolygiad dilynol o'r trefniadau ar gyfer Ansawdd Data, Adfer TG ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes a Caldicott, ond mae llawer mwy o waith i'w wneud:
  - er bod y trefniadau llywodraethu gwybodaeth a'r polisi sydd wedi'i ddiweddarau ar ansawdd data yn creu'r sail i wella ansawdd data, ceir heriau o hyd wrth wella cywirdeb gwybodaeth y Bwrdd Iechyd.
  - mae gan y Bwrdd Iechyd ddull safonol o adfer ar ôl trychineb ac o gynllunio parhad busnes, er mai prin yw'r profion ar gynlluniau parhad busnes, ac er bod lle i gryfhau'r dull mewn rhai adrannau; ac
  - mae trefniadau Caldicott wedi'u datblygu'n dda, ond mae lle i sicrhau gwelliannau pellach drwy gytuno ar ddull strategol o lywodraethu gwybodaeth.
- Ar y cyfan, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da wrth ymateb i'r argymhellion i wella gwasanaethau arlwygo a maeth. O hyn allan, mae angen iddo ganolbwyntio ar atgyfnerthu prosesau sgrinio a dogfennu maeth ac ar adroddiadau i'r Bwrdd, a sicrhau hefyd fod yr holl ardaloedd i gleifion wedi'u paratoi ar gyfer amseroedd prydau bwyd a bod cleifion yn cael cymorth prydlon i fwyta.

**21.** Hoffwn gydnabod a diolch am gymorth a chydweithrediad staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

---

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

- 22.** Yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd y Bwrdd Iechyd, nodir prif ganfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2014 a mis Tachwedd 2015.
- 23.** Cyflawnir fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004<sup>1</sup>. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:
- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
  - fy modloni fy hun fod y gwariant a'r incwm a drafodir yn y cyfrifon wedi'u defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd, ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu rheoli;
  - fy modloni fy hun fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.
- 24.** Mewn perthynas ag (c), yr wyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, drwy ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:
- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
  - gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliai'r trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd a'r defnydd o adnoddau;
  - archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
  - canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle bônt yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
  - gwaith arall, fel ardystio ffurflenni.
- 25.** Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn rhoi crynodeb o'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn, y ceir rhestr ohonynt yn [Atodiad 1](#).
- 26.** Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:
- Adran 1: Archwilio cyfrifon
  - Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau
- 27.** Yn [Atodiad 2](#) dangosir yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am y gost wirioneddol o gyflawni fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ochr yn ochr â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2015.
- 28.** I gloi, nodir yn [Atodiad 3](#) y prif risgiau archwilio ariannol a amlygwyd yng Nghynllun Archwilio 2015, a'r modd yr ymdriniwyd â'r risgiau hynny drwy'r archwiliad.

---

<sup>1</sup>Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004



---

## Adran 1: Archwilio cyfrifon

- 29.** Yn yr adran hon o'r adroddiad ceir crynodeb o ganfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2014-15. Y datganiadau hyn yw ffordd y sefydliad o ddangos ei berfformiad ariannol. Maent yn dangos ei sefyllfa ariannol, ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lif arian parod. Mae'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol sefydliad yn elfen hanfodol wrth ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod mewn modd priodol.
- 30.** Wrth ystyried datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi fy marn ynglŷn â'r canlynol:
- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant ar gyfer y cyfnod dan sylw;
  - a ydynt yn rhydd rhag camddatganiadau o bwys - a achoswyd drwy dwyll neu drwy wall;
  - a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
  - a yw'r rhan honno sydd i'w harchwilio o'r Adroddiad ar Daliadau wedi'i pharatoi'n briodol; a
  - rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.
- 31.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).
- 32.** Wrth gyflawni'r gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi archwilio digonolrwydd y canlynol:
- amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd; a
  - gweithgareddau rheolaeth a ystyrir yn berthnasol i'r archwiliad.

**Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2014-15. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, dygais sawl mater i sylw swyddogion ac i'r Pwyllgor Archwilio a chyflwynais adroddiad sylweddol i gyd-fynd â'm barn archwilio.**

**Cafodd cyfrifon y Bwrdd Iechyd eu paratoi mewn modd priodol, ac maent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;**

- 33.** Mae'r amserlen dynn ar gyfer cynhyrchu datganiadau cyfrifyddu sydd yn gywir ym mhob ffordd berthnasol, ac sydd wedi'u hategu'n dda, yn her sylweddol i'r Bwrdd, ac yn enwedig i'w dîm cyllid. Yn yr un modd â'r blynyddoedd cynt, paratôdd tîm cyllid y Bwrdd gynllun cau manwl ar gyfer 2014-15 a nodai swyddogion cyfrifol a dyddiadau terfyn allweddol. Yr oedd hefyd yn cynnwys amser i'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio adolygu'r datganiadau ariannol ac i baratoi atodlenni ategol mewn pryd i'w harchwilio. Bu'r dull systematig hwn yn fodd i rwyddhau'r broses ac i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn barod er mwyn bodloni'r amserlen glirio lem.

34. Cyn rhoi fy marn archwilio ar y cyfrifon, y mae'n ofynnol i mi, yn unol ag ISA 260, adrodd ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol adroddiad ar y materion hyn gerbron Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd lechyd ar 2 Mehefin, a gerbron cyfarfod o'r Bwrdd ar 4 Mehefin 2015. Ceir crynodeb yn **Arddangosyn 1** o'r prif faterion a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

#### Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol

Mater	Sylwadau'r archwilwyr
Arferion Cyfrifyddu ac Adroddiadau Ariannol	<p><b>Perfformiad Taliadau'r Sector Cyhoeddus</b></p> <p>Fel yr adroddwyd yn nodyn saith i'r cyfrifon, ni chyrrhaeddodd y Bwrdd darged Llywodraeth Cymru ar gyfer Perfformiad Taliadau'r Sector Cyhoeddus (PTSC), sef talu 95 y cant o gredydwyr o'r tu allan i'r GIG cyn pen 30 diwrnod.</p> <p>Yn ôl Llawlyfr Cyfrifon Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i Fyrddau lechyd gynnwys taliadau a wnaed i gontractwyr gofal sylfaenol yn eu ffigurau cydymffurfio.</p> <p>Nid yw'r system Exeter a ddefnyddir gan y Bwrdd lechyd i brosesu taliadau gofal sylfaenol yn darparu unrhyw wybodaeth ystadegol ynghylch nifer y diwrnodiau a gymerir i dalu. Mae'r Bwrdd lechyd felly'n tybio bod taliadau'n cael eu gwneud o fewn 30 diwrnod bob tro, yn unol â'r rhwymedigaethau contract. Mae'n bosibl bod y data PTSC ar gyfer y targed hwn, ar gyfer taliadau o fewn y GIG ac oddi allan i'r GIG yn nodyn 7.1 wedi'i gamddatgan.</p> <p>Hefyd, mae'r PTSC yn parhau i gael ei gamddatgan oherwydd dull y Bwrdd lechyd o adrodd ynghylch anfonebau sy'n destun anghydfod. Ystyrir bod anfonebau sy'n destun anghydfod wedi'u talu o fewn 30 diwrnod, gan greu perfformiad ffafriol. Nid oes unrhyw wybodaeth i gadarnhau bod yr anfonebau hyn yn cael eu talu o fewn 30 diwrnod ar ôl datrys yr anghydfod.</p>
Materion eraill pwysig wrth oruchwylio'r broses adrodd ariannol	<p>Yn y blynyddoedd cynt, rydym wedi adrodd y dylai'r Bwrdd lechyd adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) drwy gydol y flwyddyn fel ffordd o gofnodi ei adolygiad a'i asesiad o drefniadau llywodraethu. Yn 2014-15, mae'r Bwrdd lechyd wedi parhau i adolygu a datblygu 'Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd'. Dylid ystyried y DLIB yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn yn rhan o'r gwaith i asesu effeithiolrwydd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.</p>

35. Yn ôl Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, mae'n ofynnol i'r Bwrdd lechyd gyflawni dwy ddyletswydd ariannol statudol newydd. Cyhoeddais adroddiad naratif ochr yn ochr â'm tystysgrif archwilio i egluro'r dyletswyddau newydd, perfformiad y Bwrdd lechyd yn eu herbyn, a'r goblygiadau ar gyfer 2015-16.
- Mae'r ddyletswydd ariannol gyntaf yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i Fyrddau lechyd o ran adnoddau, drwy eu galluogi i fantoli eu hincwm a'u gwariant dros gyfnod treigl o dair blynedd, gan ddisodli'r ddyletswydd i fantoli'r cyfrifon bob blwyddyn. Y cyfnod cyntaf o dair blynedd o dan y ddyletswydd hon yw 2014-15 hyd 2016-7, felly ni fydd

---

perfformiad y byrddau iechyd o dan y ddyletswydd yn cael ei fesur hyd 2016-17. O 2014-15 ymlaen, byddaf yn casglu camddatganiadau heb eu cywiro o archwiliadau blynyddoedd un, dau a thri, ac yn ystyried eu heffaith gronnus ar berfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn y ddyletswydd wrth ei fesur ym mlwyddyn tri. Nodwyd ambell wall dibwys yn 2014-15.

- Yr ail ddyletswydd ariannol yw dyletswydd newydd sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i fyrddau iechyd baratoi CTCI tair blynedd treigl, a sicrhau cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer y cynllun hwnnw. Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ail ddyletswydd ariannol, sef creu CTCI tair blynedd cymeradwy ar gyfer y cyfnod 2014-15 hyd 2016-17. Yn lle hynny, paratôdd y Bwrdd Iechyd gynllun gweithredol ac ariannol dros dro blwyddyn o hyd ar gyfer 2014-15, gan nad oedd o'r farn fod ei gynllun drafft tair blynedd yn bodloni gofynion y Bwrdd yn llawn, nac ychwaith y gofynion a nodwyd yn Neddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014. Ym mis Mehefin 2014, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru nad oedd cynllun tair blynedd drafft y Bwrdd Iechyd yn bodloni gofynion statudol, felly ni chafodd ei gymeradwyo gan y Gweinidog. Cafodd cynllun gweithredol ac ariannol interim blwyddyn o hyd y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2014-15 ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2014.
- Cymeradwywyd CTCI y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2015-18 gan y Gweinidog ar 2 Mehefin 2015. Yn y cynllun cymeradwy, nodir diffyg ariannol posibl o £19.7 miliwn yn 2015-16, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio lleihau costau a chanfod arbedion er mwyn cau'r bwll hwn.

**36.** Yn rhan o'm gwaith archwilio ariannol, cynhaliais yr adolygiadau canlynol hefyd:

- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan - Deuthum i'r casgliad bod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2015, a bod y ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru.
- Adroddiad ar Daliadau - Deuthum i'r casgliad bod yr Adroddiad ar Daliadau wedi'i lunio'n briodol yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r cyfarwyddiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru yn sgil y Ddeddf honno.
- Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol - Deuthum i'r casgliad bod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau ariannol llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio i raddau helaeth â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â staff y Bwrdd Iechyd i gytuno ar gynllun cyflawnadwy er mwyn cydgasglu'r Adroddiad Blynyddol, yn unol â'r gofynion diwygiedig a ddisgwyllir gan Lywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau y gallwn ddatblygu'r gweithdrefnau a'u hatgyfnerthu ymhellach ar gyfer 2015-16.

**37.** Rwyf bron wedi cwblhau fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol y Cronfeydd Elusennol. Bydd yr Ymddiriedolwr yn ystyried fy adroddiad drafft ar archwilio'r datganiadau ariannol ym mis Ionawr 2016.

---

Roedd gan y Bwrdd Iechyd Amgylchedd Rheolaeth Effeithiol i Leihau'r Risg o Gamddatganiadau o Bwys yn y Datganiadau Ariannol

38. Ffocws pennaf fy ngwaith yw cywirdeb y datganiadau ariannol, gan adolygu'r amgylchedd rheolaeth fewnol er mwyn asesu a yw'n rhoi sicrwydd na cheir unrhyw gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy wall neu drwy dwyll. Mae'r amgylchedd rheolaeth yn cynnwys y swyddogaethau llywodraethu a rheoli, ac agweddau, ymwybyddiaeth a gweithredoedd y rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu a rheoli, mewn perthynas â rheolaeth fewnol yr endid a phwysigrwydd y rheolaeth honno o fewn yr endid. Mae'n cynnwys adolygiad o brosesau cau ac o'r seilwaith cyfrifiadurol a'r rheolaethau cymhwys. Ni chefais hyd i unrhyw wendidau o bwys yn amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd.

Roedd gweithgareddau rheolaeth y Bwrdd Iechyd, a ystyriwyd gennym yn rhan o'r archwiliad, yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu'n unol â'r bwriad i leihau'r risg o gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol.

39. Ni chefais hyd i unrhyw wendidau o bwys yng ngweithgarwch rheolaeth y Bwrdd Iechyd a fyddai'n cael effaith ar fy marn. Roedd nifer o faterion manwl yn deillio o'm gwaith archwilio ariannol, gan gynnwys y materion y cyfeirir atynt yn [Arddangosyn 1](#) uchod, ac adroddwyd y rhain wrth y Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin 2015. Cafodd arsylwadau manylach eu cynnwys ar agweddau ariannol a'r system gyfrifyddu mewn adroddiad ar wahân ar y datganiadau ariannol, a oedd yn cynnwys camau cytunedig mewn ymateb i'm hargymhellion. Cyflwynwyd yr adroddiad hwn gerbron y Pwyllgor Archwilio ym mis Hydref 2015.
40. Roedd adolygiadau'r Adran Archwilio Mewnol o systemau cyllid y Bwrdd Iechyd a'r systemau a reolir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cadarnhau bod system gadarn ar waith ar y cyfan o ran rheolaeth ariannol fewnol. Yr oedd chwech o'r naw o adolygiadau archwilio ariannol yn ystod y flwyddyn yn rhoi sicrwydd sylweddol, a thri yn rhoi sicrwydd rhesymol bod y rheolaethau mewnol o ddyluniad addas ac wedi'u cymhwyso'n effeithiol.
41. Fodd bynnag, canfu'r Adran Archwilio Mewnol rai gwendidau o ran cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau yn rhai adrannau o'r Bwrdd Iechyd. Daeth yr Adran i'r casgliad y gallai'r gwendidau hyn beryglu'r gallu i gyflawni amcanion neilltuol yn gysylltiedig â systemau. Mae angen i'r rheolwyr weithredu'n barhaus mewn perthynas â'r Adran Archwilio Mewnol, ac mae cynlluniau gweithredu wedi cael eu creu i atgyfnerthu'r gwendidau a nodwyd o ran rheolaeth. Mae'r Pwyllgor Archwilio'n parhau i graffu ar gynnydd.

---

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

42. Mae gofyniad statudol arnaf i'm bodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau priodol ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:
- adolygu trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd a wneir o ran cyflawni cynlluniau arbed costau a chyfraniad y cynlluniau hynny at sicrhau cydbwysedd ariannol;
  - asesu pa mor effeithiol yw trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd drwy fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig, gan gynnwys adolygu'r cynnydd a wnaed mewn meysydd gwella a nodwyd ers y llynedd;
  - gwaith ar ddefnydd penodol o adnoddau wrth reoli meddyginiaethau, apwyntiadau dilynol i gleifion allanol, gwasanaethau orthopedig a chapasiti'r gwasanaeth TGCh;
  - asesu'r cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wneud er mwyn ymdrin â'r problemau a nodwyd mewn gwaith archwilio blaenorol ar arlwyo a maeth cleifion a Nyrsio Ardal;
  - adolygiad dilynol cyfunol o ansawdd data, adfer ar ôl trychineb TG a pharhad busnes, a threfniadau Caldicott y Bwrdd Iechyd, ac adolygiad o drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer olrhain argymhellion archwilio allanol.
43. Ceir crynodeb o brif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

**Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i reoli cyllidebau a monitro cynlluniau arbed yn effeithiol ond mae maint yr arbedion sydd eu hangen yn ystod y tair blynedd nesaf yn golygu y gallai fod yn fwyfwy anodd cynnal y sefyllfa ariannol a ddymunir**

Yn 2014-15, fel y blynyddoedd cynt, dangosodd y Bwrdd Iechyd reolaeth ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn. Bu'r rheolaeth hon, ynghyd â'r cyllid ychwanegol a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn, yn fodd i sicrhau cyllideb gytbwys yn 2014-15

44. Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fodloni'r gofyniad ar ddiwedd y flwyddyn i sicrhau gwariant o fewn y terfyn adnoddau refeniw, drwy gyfyngu ar gostau, lleihau gweithgarwch a chydweithio â rhanddeiliaid.
45. Yn y Cynllun Blynyddol, nodwyd £44.8 miliwn fel cyfanswm yr her ariannol ar gyfer 2014-15. Cynlluniodd y Bwrdd Iechyd gyfanswm o £25.84 miliwn o ostyngiad mewn costau, a oedd yn cynnwys £19 miliwn ar ffurf cynlluniau arbed a £6.84 miliwn ar ffurf cynlluniau i wella costau. Gadawodd hyn ddiffyg wedi'i gynllunio o £19 miliwn.
46. Drwy gydol y flwyddyn, adroddodd y Bwrdd Iechyd ei fod ar y trywydd iawn i gyflawni'r diffyg cynlluniedig o £19 miliwn drwy ddefnyddio cyfuniad o gynlluniau i wella, osgoi, ac arbed costau, ac arbed. I gefnogi hyn, cafodd nifer o fesurau wrth gefn hefyd eu llunio rhag ofn y byddai angen cymryd camau pellach i fodloni'r terfyn adnoddau refeniw.

- 
47. Adroddodd y Bwrdd lechyd ei fod wedi sicrhau £14.2 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn yn sgil mesurau i arbed a chyfyngu ar gostau. Cyflawnwyd y gwahaniaeth rhwng yr £14.2 miliwn o arbedion a sicrhawyd a'r £25.84 miliwn o arbedion y cyllidebwyd ar eu cyfer yn wreiddiol, drwy weithgareddau fel rhaglenni byrdymor i gyfyngu ar gostau ar lefel is-adrannol, cytuno ar broffil ad-dalu diwygiedig ar gyfer rhaglen Eiddilwch Llywodraeth Cymru, a lleihau gwariant ar gontractau allanol. Yn ogystal â hyn, darparwyd £26.7 miliwn o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2014.
48. Bodlonwyd y terfyn adnoddau refeniw ar ddiwedd y flwyddyn, gyda swm cymedrol o £407,000 yn weddill. Fodd bynnag, gan fod y Bwrdd lechyd wedi dibynnu ar gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyrraedd y targed, ynghyd â mesurau anghylchol a byrdymor i gyfyngu ar gostau, nid yw'r dull hwn yn gynaliadwy. Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod hyn.

Ceir diffyg yn yr arbedion a gynlluniwyd yn 2015-16, ac mae'r Bwrdd lechyd yn dibynnu ar gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru er mwyn bodloni'r diffyg y mae wedi'i gynllunio, gan awgrymu nad oes modd sicrhau na chynnal cyllideb gytbwys yn y tymor canolig.

49. Mae Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 wedi cyflwyno cyfundrefn ariannol fwy hyblyg. Mae'n rhoi dyletswydd ariannol gyfreithiol newydd ar fyrddau ieuchyd lleol i fantoli'r gyllideb dros dair blynedd ariannol dreigl, yn hytrach na phob blwyddyn unigol. Mae'r Ddeddf yn galluogi Byrddau lechyd lleol i ganolbwyntio ar benderfyniadau sy'n ymwneud â chynllunio gwasanaethau, y gweithlu a chyllid, a gweithredu dros gyfnod hirach, haws ei reoli. Mae'n symud i ffwrdd oddi wrth gyfundrefn sy'n annog penderfyniadau byrdymor o amgylch y flwyddyn ariannol. Mae'r hyblygrwydd ariannol, fodd bynnag, yn amodol ar allu cyrff y GIG i baratoi CTCI digon cadarn, ac ar gymeradwyaeth ffurfiol i'r cynlluniau hynny gan Weinidogion Cymru.
50. Yng nghynllun tair blynedd cymeradwy'r Bwrdd lechyd nodir diffygion net ym mhob blwyddyn: yn y flwyddyn gyntaf - 2015-16 £19.7 miliwn, ym mlwyddyn dau - 2016-17 £13.8 miliwn, ac £11.5 miliwn ym mlwyddyn tri - 2017-18. Mae'r Bwrdd lechyd wedi nodi y bydd angen mynd i'r afael â'r diffygion net hyn drwy gyfleoedd pellach i effeithlonni, a thrwy newid gwasanaethau yn bennaf. Nodir hefyd y bydd canlyniadau blwyddyn un yn cael effaith ar faint yr her sy'n weddill ar gyfer blynyddoedd dau a thri.
51. Cyfanswm yr her ariannol a nodwyd yn wreiddiol ar gyfer 2015-16 yn CTCI y Bwrdd lechyd oedd £72.4 miliwn, ac fe dybiwyd y byddai cyllid ychwanegol o £33.7 miliwn ar gael ar gyfer hyn. Roedd hyn yn gadael her ariannol o £38.7 miliwn cyn ystyried y cyfleoedd posibl a ddeuai yn sgil effeithlonni gwell ac effaith cynlluniau arloesol i newid gwasanaethau. Mae £19 miliwn o ostyngiad mewn costau wedi'i nodi yn y gyllideb, sy'n cynnwys £13 miliwn mewn arbedion a £6 miliwn arall yn sgil cyfyngu ar gostau. Mae hyn yn gadael £19.7 miliwn wedi'i or-ymrwymo neu ar ffurf diffyg wedi'i gynllunio, ac mae'r Bwrdd lechyd yn ceisio canfod cyfleoedd pellach i wella costau ac arbed arian er mwyn lleihau'r diffyg posibl.
52. Mae'n glir bod lefel yr arbedion sydd wedi'u cyllidebu a'r mesurau i gyfyngu ar gostau'n annigonol er mwyn sicrhau cydbwysedd ariannol yn 2015-16, ac roedd y cynllun a gyflwynwyd gan y Bwrdd lechyd i Lywodraeth Cymru'n tynnu sylw at hyn. Mae'r CTCI wedi cael ei gymeradwyo gan y Gweinidog ar y sail nad yw'r Bwrdd lechyd yn mynd y tu hwnt i'r

- 
- diffyg o £19.7 miliwn a gynlluniwyd ganddo yn y flwyddyn gyfredol, ac ar yr amod bod ei ddiffyg cronnus dros dair blynedd yn gostwng.
53. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio paratoi gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer y tymor canolig, ac yn 2015-16 fe barhaodd y cynlluniau a'r rheolaeth ariannol gadarn a welwyd yn ystod y flwyddyn yn 2014-15. Yn briodol, mae'r sefydliad yn monitro ac yn ailasesu ei sefyllfa ariannol yn fisol ac yn adrodd mewn modd didwyll wrth y Bwrdd ac wrth Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, efallai na fydd canlyniadau ariannol ei ddull o gynllunio i ddarparu gwasanaethau'n gynaliadwy, gan ei fod yn dibynnu ar fesurau byrdymor a gynhelir yn ystod y flwyddyn, fel lleihau'r gwariant ar nyrsys asiantaeth, rheoli gwariant ar ofal iechyd parhaus a lleihau'r gwariant a gynllunnir ar feddyginiaethau.
  54. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud defnydd helaeth o nyrsys asiantaeth gan gyflenwr nad yw wedi'i gynnwys yn y contract fframwaith cenedlaethol. Yn ogystal â risgiau'n gysylltiedig â darbodusrwydd ac ansawdd, mae diffyg trefniadau contractio ffurfiol yn groes i Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog. Byddwn yn ystyried y risgiau hyn yn rhan o archwiliad 2015-16. Sylwn fod y Bwrdd bellach yn dechrau lleihau'r defnydd o'r asiantaeth hon.
  55. Ym mis Tachwedd 2015, mae'r Bwrdd Iechyd wedi adrodd diffyg o £15.6 miliwn, ac yn rhagweld diffyg o £22.6 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Sicrhawyd £7 miliwn o arbedion erbyn mis saith yn erbyn targed o £13 miliwn. Felly, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau lefel cyfrannol uwch o arbedion yn y pum mis sy'n weddill o'r flwyddyn, yn ogystal â'r £6 miliwn o fesurau i gyfyngu ar gostau fel bo modd sicrhau diffyg o £19.7 miliwn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i adfer y sefyllfa ac fe geir tystiolaeth o ymgysylltu yn y cynlluniau ariannol a'r cynlluniau newid gwasanaeth gan y rai sy'n gyfrifol am gyflawni'r cynlluniau hynny.
  56. Er bod gan y Bwrdd Iechyd hanes da o gyflawni ei gynlluniau arbed er mwyn ymdrin â phwysau ariannol cynyddol, mae lefel yr arbedion cyflawnadwy a ragwelir yn y blynyddoedd nesaf yn gostwng. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhagweld y bydd ei arbedion hirdymor ar gyfer 2016-17 a 2017-18 yn is, sef £9.6 miliwn a £5.6 miliwn, yn y drefn honno, gan awgrymu bod mantoli'r gyllideb yn fwyfwy anodd.

### **Mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu gweledigaeth glir ac yn hyrwyddo diwylliant sy'n canolbwyntio ar ansawdd, gyda thystiolaeth o welliannau parhaus i'w drefniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli risg a pherfformiad**

57. Yn yr adran hon o'r adroddiad ystyrir fy nghanfyddiadau ynghylch sicrwydd llywodraethu a'r bwrdd, wedi'u cyflwyno o dan y themâu canlynol:
  - cynllunio strategol;
  - strwythur trefniadol;
  - sicrwydd y bwrdd a rheolaethau mewnol;
  - rheoli perfformiad; a
  - llywodraethu gwybodaeth.

---

Mae cynlluniau strategol y Bwrdd Iechyd yn creu sail dda i symud y sefydliad yn ei flaen, sy'n llywio gweithgarwch gwella, ond mae ei ddyfodol yn dibynnu'n drwm ar gymeradwyo'r achos busnes ar gyfer Canolfan Gofal Arbenigol a Chritigol.

58. Mae'r CTCI yn pennu amcanion strategol y Bwrdd Iechyd, ac mae'r amcanion hynny wedi derbyn ystyriaeth a her dda gan y Bwrdd. Cymeradwywyd y Cynllun gan y Gweinidog ym mis Mehefin 2015.
59. Mae CTCI 2015-18 yn cyflwyno 10 o Gynlluniau Newid Gwasanaeth (CNG) sydd yn darparu nodau gwella cymharol glir yn nhrefn blaenoriaeth, ac sy'n trafod ystod eang o feysydd gwasanaeth clinigol y Bwrdd Iechyd. Craidd y Cynllun yw'r strategaeth Dyfodol Clinigol sydd wedi cael ei sefydlu ers tro. Mae'r strategaeth yn nodi gweledigaeth i ailgydbwysu gwasanaethau clinigol yng Ngwent drwy ddarparu gofal yn y lleoliad mwyaf priodol. Un o elfennau allweddol y weledigaeth Dyfodol Clinigol yw creu Canolfan Gofal Arbenigol a Chritigol fyddai'n darparu amgylchedd hynod arbenigol er mwyn trin cleifion ag anghenion gofal iechyd mwy cymhleth ac aciwt.
60. Yn ystod 2015-16, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd achos busnes llawn ar gyfer y Ganolfan Gofal Arbenigol a Chritigol, ynghyd ag achos busnes cyffredinol y Rhaglen Dyfodol Clinigol, i Lywodraeth Cymru. Nid oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth glir arall os gwrthodir yr achos busnes. Yn y cyfamser, mae'r Bwrdd Iechyd yn dibynnu ar gynlluniau wrth gefn a chadw ar gyfer gwasanaethau bregus fel gwasanaethau newyddenedigol, obstetreg a phaediateg.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi elwa ar strwythur sefydlog y sefydliad, ond mae angen iddo ystyried a yw'r strwythur presennol yn rhoi digon o gefnogaeth i foderneiddio gwasanaethau ac ar gyfer atebolrwydd gweithredol.

61. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi elwa ar barhad ei strwythur trefniadol. Mae hyn wedi bod o gymorth i sicrhau trefniadau ffurfiol i ddirprwyo atebolrwydd gweithredol ym mhob maes busnes. Mae'r sefydlogrwydd hwn yn sicrhau y gall rheolwyr ganolbwyntio ar wella gwasanaethau heb unrhyw waith ad-drefnu cymhleth yn y cefndir.
62. Uchelgais y Bwrdd Iechyd yw darparu'r gofal cywir yn y lleoliad cywir. Canlyniad tebygol hyn yw ailfodelu gwasanaethau, tynnu'r buddsoddiad yn ôl o rai gwasanaethau, ond buddsoddi mwy mewn gwasanaethau newydd neu ehangu rôl rhai gwasanaethau. Hyd yma, ymddengys fod rhai newidiadau i lwybrau gwasanaethau wedi'u cyflawni yn sgil ymroddiad a chymhelliant ambell unigolyn allweddol. Fodd bynnag, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i adolygu ei strwythur trefniadol er mwyn sicrhau ei fod yn llwyr alluogi'r math o newid llwybrau trawsadrannol sy'n rhan o weledigaeth y Bwrdd Iechyd.
63. Dros y flwyddyn ddiwethaf, cafwyd sawl achos lle adroddwyd problemau gan swyddogion ym mhwyllgorau'r Bwrdd Iechyd, fel cyflawnder y cofnodion meddygol a gedwir, a chydymffurfiaeth â pholisïau'r sefydliad. Nid yw'n glir a yw'r problemau cydymffurfio hyn yn tarddu o'r llinellau atebolrwydd oddi mewn i strwythur y sefydliad, neu a ydynt yn syml yn adlewyrchu gwendidau yn atebolrwydd rheolwyr a fyddai wedi bodoli waeth beth fyddai ei strwythur.



---

Mae gan y sefydliad Fwrdd effeithiol ac mae'n dangos ei fod yn rheoli materion a risgiau presennol; fodd bynnag, bydd angen datblygu ei drefniadau i fodloni deddfwriaeth newydd Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

64. Mae'n glir bod y Bwrdd yn gofyn am safonau uchel ac yn disgwyl i'w arweinyddiaeth arddangos y safonau hyn drwy ddangos esiampl wrth weithredu a phenderfynu, a thrwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o ddatblygiadau ar raddfa Cymru gyfan. Ceir neges glir o frig y sefydliad i ganolbwyntio ar ansawdd. Mae'r Bwrdd yn ceisio rhoi'r flaenoriaeth i brofiad y claf, ac yn cynnal trafodaethau agored. Bydd angen datblygu trefniadau llywodraethu'r Bwrdd i fodloni gofynion newydd sy'n deillio o gyflwyno Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sydd, o fis Ebrill 2016, yn gosod dyletswydd ar y Bwrdd lechyd o ran lles.
65. Mae'r strwythur pwyllgorau'n cefnogi trefniadau llywodraethu da, ac fe geir tystiolaeth bod y trefniadau'n gwella'n barhaus. Mae'r Pwyllgorau wedi'u sefydlu'n dda. Mae gan bob pwyllgor gylch gorchwyl clir, sy'n cael ei adolygu a'i ddiweddarau bob blwyddyn. Mae'r strwythur pwyllgorau yn caniatáu i bwyllgorau dreulio digon o amser yn canolbwyntio ar feysydd busnes a risgiau sefydliadol unigol. Ceir hefyd lefel resymol o ryngweithredu rhwng y pwyllgorau amrywiol, sy'n cefnogi trefniadau i drawsgyfeirio pryderon. Fodd bynnag, mae lle i gryfhau'r mecanweithiau a ddefnyddir er mwyn i bwyllgorau gael sicrwydd oddi wrth yr is-bwyllgorau a'r grwpiau sy'n adrodd wrthynt.
66. Mae'r Bwrdd lechyd yn datblygu ei wybodaeth reoli'n gyson i'w helpu i sicrhau bod yr wybodaeth honno'n cael ei chyflwyno a'i defnyddio i gefnogi trefniadau effeithiol wrth graffu a gwneud penderfyniadau. Bydd aelodau annibynnol yn aml yn dangos eu bod yn defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys eu profiad eu hunain a'r hyn a arsylwyd mewn gwasanaethau. Mae hyn yn fodd i driongli gwybodaeth, ac o gymorth i gynyddu trylwyrdd y gwaith craffu a herio. Fel arfer, bydd adroddiadau i fyrddau a phwyllgorau wedi'u hysgrifennu a'u cyflwyno'n dda. Nodir cryfderau a gwendidau'n rheolaidd mewn adroddiadau, a hynny mewn modd teg. Fodd bynnag, mae tuedd i wybodaeth y Bwrdd ganolbwyntio mwy ar ddarpariaeth gwasanaeth ysbytai, gan gynnig llai o sicrwydd ynghylch gwasanaethau a gomisiynir gan ddarparwyr gwasanaeth eraill.
67. Mae trefniadau'r Bwrdd lechyd i reoli risg yn cynorthwyo'r Bwrdd a'i bwyllgorau i reoli risgiau allweddol i'r sefydliad, ac mae gwaith ar y gweill i atgyfnerthu'r trefniadau hyn eto.
68. Er bod gan y sefydliad ddull o olrhain argymhellion archwilio mewnol, nid oes trefniadau llawn wedi'u sefydlu i olrhain a monitro effeithiolrwydd yr ymateb i argymhellion archwilio allanol. Ac eithrio'r adroddiadau cynnydd yn erbyn argymhellion yr archwiliad strwythuredig, mae'n anodd i'r Pwyllgor Archwilio asesu a chraffu ar gynnydd yn erbyn camau a gytunwyd gan y Bwrdd mewn ymateb i argymhellion adroddiadau archwilio.

Mae'r Bwrdd yn derbyn gwybodaeth briodol am ei berfformiad a gallai ei waith addawol wrth ddatblygu canlyniadau roi ffocws mwy cytbwys i'r Bwrdd lechyd er mwyn mesur effaith ei ymdrechion, ond mae mynediad at ofal wedi'i gynllunio a heb ei drefnu o dan bwysau cynyddol.

69. Mae'r Bwrdd lechyd yn craffu ar berfformiad yn effeithiol ac yn cymryd camau i wella lefel yr wybodaeth amser real am berfformiad, er mwyn galluogi rheolwyr i wneud penderfyniadau deallus. Mae'r Bwrdd lechyd hefyd yn dechrau datblygu ei ddull o gofnodi ac adrodd

---

mesurau canlyniad. Y mae'n ymgysylltu â'r Consortiwm Rhyngwladol ar gyfer Mesur Canlyniadau Iechyd ac yn chwilio am arfer da mewn sefydliadau gofal iechyd eraill.

70. O ystyried y pwysau ar wasanaethau a'r cefndir o lynder, mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal lefel resymol o berfformiad mewn sawl maes. Fodd bynnag, ceir pwysau cynyddol ar wasanaethau gofal wedi'i gynllunio a heb ei drefnu, a gallai'r pwysau hyn gynyddu dros y gaeaf. Os trosglwyddir adnoddau a chapasiti o ofal wedi'i gynllunio i ofal heb ei gynllunio dros gyfnod y gaeaf, dylid rhoi cynlluniau ar waith hefyd i adfer sefyllfa'r gofal sydd wedi'i gynllunio yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Mae fframwaith priodol wedi'i sefydlu i gefnogi trefniadau da ar gyfer llywodraethu gwybodaeth. Mae trefniadau Caldicott wedi'u datblygu'n dda, ac mae lle i sicrhau gwelliannau pellach

71. Mae gan y Bwrdd Iechyd strategaeth llywodraethu gwybodaeth ar waith sy'n trafod materion llywodraethu gwybodaeth, gan gynnwys diogelu data, Caldicott a chytundeb rhannu gwybodaeth bersonol Cymru. Mae'r strategaeth hon wedi dod i ben, ond mae'r Bwrdd Iechyd ar ganol ei diweddarau.
72. Ceir fframwaith blynyddol o adolygiadau mewnol er mwyn helpu i sicrhau y cydymffurfir â safonau gwybodaeth. Mae'r fframwaith hwn wedi dangos gwelliant o ran cydymffurfio sy'n gysylltiedig ag ystod o weithgarwch datblygu, fel ehangu rhaglen stiwardiaid gwybodaeth y Bwrdd, a'i drefniadau ar gyfer addysgu staff a chleifion.

Yn fy ngwaith archwilio perfformiad, canfuwyd cyfleoedd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau mewn sawl maes allweddol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gosod agenda uchelgeisiol ar gyfer newid, ac yn gynyddol yn targedu'r modd y mae'n defnyddio ei adnoddau i'w helpu i gyflawni yn erbyn ei amcanion newid a'i nodau corfforaethol.

73. Yn rhan o'm gwaith ar yr Asesiad Strwythuredig, adolygwyd y modd y rheolir agweddau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Dengys y gwaith hwn fod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd mewn sawl maes sy'n gysylltiedig â rheoli adnoddau a amlygwyd gennyf yn Asesiadau Strwythuredig y blynyddoedd cynt, a'i fod yn gweithio i adeiladu capasiti TG digonol a chapasiti digonol i reoli newid. Ceir crynodeb o'r prif ganfyddiadau yn [Arddangosyn 2](#).

Arddangosyn 2: Asesiad Strwythuredig - agweddau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithiol o adnoddau

Mater	Crynodeb o'r canfyddiadau
Y gallu i reoli newid	Mae rhaglenni newid strategol yn dechrau tanategu'r CTCI, ond mae angen i'r momentwm hwn dyfu ac mae angen gwella'r capasiti i reoli newid er mwyn rhoi cefnogaeth gynyddol i arweinwyr mentrau newid cymhleth. Ceir gofynion cymhleth, graddfa fawr a rhyng-ddibynnol yn sgil cynlluniau newid gwasanaeth y Bwrdd Iechyd, ond mae'r Bwrdd Iechyd wedi wynebu heriau yn y gorffennol wrth gyflawni'r mathau hyn o newidiadau o fewn amserlen gynlluniedig. Mewn ymateb i hyn, mae'r Prif Weithredwr yn sefydlu swyddfa rhaglenni er mwyn creu capasiti ychwanegol ar gyfer newid.
Cynllunio'r gweithlu	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau perthnasol i ymdrin â risgiau gweithredol i'r gweithlu, ond gallai gyfleu'r gwaith o drawsnewid y gweithlu yn well fel rhan integredig o'r CTCI ac o'r strategaeth Dyfodol Clinigol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella'r gyfradd o arfarniadau perfformiad a gaiff eu cwblhau, yn arddangos diwylliant perfformiad cadarnhaol ac yn cymryd camau i reoli a lleihau ei ddibyniaeth ar staff clinigol dros dro. Cymeradwyodd y Bwrdd ei strategaeth ar gyfer y Gweithlu a Datblygu Trefniadol ym mis Medi, ond mae angen iddo gyfleu dyluniad ei weithlu'n gliriach yn rhan o'r gwaith i drawsnewid gwasanaethau.
Ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithio mewn partneriaeth	Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd i gasglu eu safbwyntiau er mwyn cael gwybodaeth am ansawdd cyffredinol gwasanaethau, a hefyd i nodi materion penodol y mae angen ymdrin â hwy yn rhan o'r dull 'dywedoch chi, gwnaethom ni'. Fodd bynnag, gallai atgyfnerthu ei weithgarwch ymgysylltu ymhellach ar ei raglen dyfodol clinigol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni gwaith partneriaeth da yn y gorffennol, gan weithio ar lefel sefydliad, a hefyd ar lefel rhwydwaith gofal sirol a chymdogaethol.
Defnydd o dechnoleg	Mae'r Bwrdd Iechyd ar ganol datblygu strategaeth ddiwygiedig ar gyfer Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg. Dyma gyfle i ddatblygu technoleg sy'n galluogi gofal iechyd sy'n canolbwyntio ar y gymuned a'r strategaeth dyfodol clinigol. Dylid buddsoddi mewn meysydd lle bydd hynny'n sicrhau effeithlonrwydd a darbodusrwydd y gwasanaeth ac yn gwella ei ansawdd.

Mae fy nghasgliad ynghylch effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd gwasanaethau orthopedig yn y Bwrdd Iechyd yn seiliedig ar y data a gasglwyd yn rhan o'm hadolygiad cenedlaethol o wasanaethau orthopedig yng Nghymru, a gyhoeddwyd yn 2015. Yn fy adolygiad o'r gwasanaeth orthopedig, canfûm fod lle i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau orthopedig er mwyn ymdrin â galw cynyddol ac i sicrhau canlyniadau gwell i gleifion.

74. Mae atgyfeiriadau gan feddygon teulu i wasanaethau orthopedig ar gynnydd, ac erbyn hyn ar eu huchaf yng Nghymru. Ac eithrio ardal Sir Fynwy, mae cyfran y preswylwyr 65 oed yn unol â chyfartaledd Cymru. Ymddengys felly nad yw oedran y boblogaeth yn ffactor sy'n cyfrannu at y gyfradd uchel o atgyfeiriadau. Mae hyn yn awgrymu bod y gyfradd o atgyfeiriadau amhriodol yn uwch nag yn ardaloedd eraill Cymru, ac mae'n bosibl mai'r hyn

---

sydd wrth wraidd hyn yw diffyg meini prawf clir ar gyfer atgyfeirio ac ymddygiad meddygon teulu.

75. Er bod ystod dda o wasanaethau amgen wedi'u sefydlu, fel gwasanaethau poen yn y gymuned, rhaglenni ffordd o fyw a ffisiotherapi, mae lefel y buddsoddiad mewn gofal sylfaenol yn isel ac yn gostwng. Dros y tair blynedd rhwng 2010 a 2013, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno gostyngiad o 1.9 y cant i'w wariant ar wasanaethau cyhyrsgerberbydol ym maes gofal sylfaenol. Mae'r lefel hon o wariant gyda'r isaf yng Nghymru. Yn ogystal â hyn, mae'r lefelau staffio ar gyfer y Gwasanaeth Aseidiadau a Thriniaethau Cyhyrsgerberbydol Clinigol gyda'r isaf ar draws Cymru, sef llai na thraean y cyfartaledd.
76. Mae gwasanaethau gofal eilaidd ar gyfer cleifion allanol a ffisiotherapi yn ateb y galw ar y cyfan. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio ar darged mewnol o 16 wythnos ar gyfer yr apwyntiad cyntaf i glaf allanol, a allai roi pwysau ar elfen cleifion mewnol y llwybr Atgyfeirio i Driniaeth wrth geisio bodloni'r targed aros o 26 wythnos. Ar y cyfan, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweld cleifion sydd angen ffisiotherapi i drin problemau cyhyrsgerberbydol ynghynt nag yn rhannau eraill o Gymru. Darperir gwasanaethau ffisiotherapi cleifion allanol mewn ystod eang o leoliadau ar draws y Bwrdd Iechyd, er nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu proses hunanatgyfeirio eto.
77. Roedd y mynediad at brofion radioleg ar gais meddygon teulu a meddygon ymgynghorol yn y Bwrdd Iechyd hwn yn gyson yn well na chyfartaledd Cymru hyd 2012. Er hynny, mae perfformiad wedi dirywio, yn enwedig o ran atgyfeiriadau gan feddygon teulu i'r gwasanaeth radioleg. Ceir lle hefyd i wella effeithlonrwydd, cyfraddau llawfeddygaeth dydd, hyd arosiadau a'r defnydd o gapasiti'r theatr yng nghyswllt cleifion allanol orthopedig. Yn ogystal â hyn, gwelir mewn rhai dangosyddion fod rhai canlyniadau'n llai cadarnhaol nag yn ardaloedd eraill Cymru, gyda chyfraddau uwch o farwolaethau ymhlith llawdriniaethau orthopedig dewisol a chyfradd is o welliant ar ôl llawdriniaethau i osod pen-glin newydd.

Er gwaethaf y lefelau isel o staff a'r llwyth gwaith trwm, canfûm yn fy adolygiad o'r Rheolaeth ar Feddyginiaethau fod y berthynas rhwng staff y fferyllfa a staff y ward yn dda. Yn ogystal â hyn, gwelwyd agweddau effeithiol ar drefniadau corfforaethol ac ar rai prosesau rheoli meddyginiaethau

78. Nid oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth ar gyfer rheoli meddyginiaethau, ac nid yw rheolaeth ar feddyginiaethau'n cael sylw digonol mewn datblygiadau strategol allweddol. Yn ei hymwneud â'r rheolaeth ar feddyginiaethau, mae'r Weithrediaeth wedi canolbwyntio'n bennaf ar faterion ariannol a chraffu ariannol. Nid oes gan y gwasanaeth fferyllol ychwaith lawer o ran mewn fforymau sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel uwch. Yn aml hefyd, ni fydd datblygiadau allweddol i wasanaethau eraill yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r goblygiadau'n gysylltiedig â hynny o ran adnoddau'r fferyllfa.
79. Drwy fy ngwaith, canfûm fod gwasanaethau'r Fferyllfa yn hygyrch ac yn ymatebol ar y cyfan, a bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr y gwasanaeth fferyllol yn fodlon â hygyrchedd y gwasanaeth yn ystod oriau gwaith arferol. Nid oedd hyn mor wir y tu allan i oriau arferol, fodd bynnag, yn enwedig yn Ysbyty Ystrad Fawr. Mae'r tîm fferyllol yn cynnwys y lefelau isaf o staff yng Nghymru, o ystyried gweithgarwch cleifion mewnol. Serch hynny, dengys canlyniadau fy arolwg fod staff yn fwy cadarnhaol nag yng ngweddill Cymru ynghylch y

---

ffocws ar hyfforddiant cysylltiedig â meddyginiaethau, a hefyd ynghylch lefel yr adnoddau staff fferyllol.

- 80.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau uniongyrchol mewn ymateb i Ymddiried Mewn Gofal, er inni ganfod cyfran cymharol uchel o achosion lle'r oedd ansicrwydd ynghylch a oedd dos wedi'i hepgor ai peidio. Roedd gan y Bwrdd Iechyd y gyfran uchaf o gleifion a oedd angen cymorth ychwanegol i gymryd eu meddyginiaeth, ac mae angen iddo wneud llawer mwy o waith i sicrhau bod anghenion cleifion o ran cydymffurfio â chyfarwyddyd meddyginiaethol yn cael eu hasesu a'u bodloni. Yn ogystal â hyn, mae angen i'r Bwrdd Iechyd gryfhau'r trefniadau ar gyfer cadw cofnodion, a'r rheolaeth ar gofnodion. Canfu fy archwiliad broblemau'n gysylltiedig â chofnodi statws cleifion o ran alergedd, ac amrywio ar draws safleoedd yng nghyfran y cleifion a dderbyniodd adolygiad cynhwysfawr o'u meddyginiaethau.
- 81.** Yn adroddiadau'r rheolwyr, ystyrir ystod dda o ddangosyddion cysylltiedig â meddyginiaethau. Mae lle i gryfhau'r adroddiadau ar berfformiad drwy gynnwys crynodeb i helpu i lywio'r darlennydd at y prif faterion, ystyried dadansoddi fesul ward fel bo modd cynnal dadansoddiad manylach, a gwella cysondeb adroddiadau.
- 82.** Mae'r dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd prosesau dysgu yn gymysg. Mae'r tîm fferyllol yn chwarae rhan allweddol o ran sicrhau bod arferion diogel ar gyfer meddyginiaethau wedi'u hymwreiddio yn y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, mae cyfradd y derbyniadau sy'n gysylltiedig â meddyginiaetha fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru, ac mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud mwy o waith i ddeall y rhesymau wrth wraidd hyn.

Mae gwybodaeth am raddfa'r oedi cyn cynnal apwyntiadau dilynol i gleifion allanol wedi gwella, ond bod gan y Bwrdd Iechyd fwy o waith i'w wneud er mwyn canfod beth yw'r galw gwirioneddol, asesu risgiau clinigol, gwella trefniadau craffu'r Bwrdd a moderneiddio gwasanaethau i gleifion allanol

- 83.** Ers mis Ionawr 2015, mae'n ofynnol i bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru gyflwyno adroddiadau i Lywodraeth Cymru ar eu rhestrau aros o gleifion allanol sy'n disgwyl am apwyntiad dilynol. Yn fy adolygiad, rwyf wedi canfod bod gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth dda ynghylch gofynion safonau data Llywodraeth Cymru a'i fod yn gwella ystod yr wybodaeth sydd ar gael ar apwyntiadau dilynol i gleifion allanol. Mae'r wybodaeth hon yn helpu Llywodraeth Cymru, uwch reolwyr a rheolwyr gweithredol i ddeall lefel y perfformiad a gyrhaeddwyd.
- 84.** Mae'r rhan fwyaf o Fyrddau Iechyd yng Nghymru ar hyn o bryd ar ganol dilysu eu rhestrau aros ar gyfer apwyntiadau dilynol er mwyn ymdrin â phroblemau'n gysylltiedig ag ansawdd y data. Mae'r gwaith dilysu hwn o gymorth i sicrhau bod gwallau'n cael eu tynnu ac mai ond cleifion ag anghenion clinigol sy'n cael eu gweld. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu dull systematig o ddilysu ei restr o gleifion allanol sy'n disgwyl am apwyntiadau dilynol, ond mae angen gwneud mwy o waith i asesu'r risgiau clinigol ac unrhyw niwed a achosir i gleifion sy'n disgwyl y tu hwnt i'w dyddiad targed.
- 85.** Gosodwyd targed gan Lywodraeth Cymru er mwyn i'r Byrddau Iechyd sicrhau gostyngiad yn nifer y cleifion sy'n disgwyl ar y restr aros ar gyfer apwyntiadau dilynol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi lleihau nifer y cleifion sy'n aros am apwyntiad dilynol, er bod nifer sylweddol o'i gleifion yn dal i aros y tu hwnt i'w dyddiad targed. Ym mis Mehefin 2015, roedd dros 87,000 o

---

gleifion ar y rhestr apwyntiadau dilynol, nad oedd apwyntiad wedi'i drefnu ar eu cyfer eto, ac roedd ychydig dros 30,000 o'r cleifion hyn yn wynebu oedi. O'r 30,000 o gleifion a wynebai oedi, roedd oddeutu 45 y cant o'r cleifion yn aros ddwywaith mor hir ag y dylent fod wedi aros am apwyntiad.

- 86.** Bu ôl-groniadau ac oedi gydag apwyntiadau dilynol yn broblem i lawer o fyrddau iechyd ers blynyddoedd. Hyd yn ddiweddar fodd bynnag, ychydig o fyrddau iechyd ledled Cymru oedd yn dadansoddi neu'n adrodd gwybodaeth am apwyntiadau dilynol cleifion allanol yn rhan o'u hadroddiadau ar berfformiad. Mae Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd yn derbyn sicrwydd rheolaidd ynghylch apwyntiadau dilynol cleifion allanol, gan ganolbwyntio'n aml ar wasanaethau dilynol i gleifion allanol ym maes offthalmoleg. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wella'r trefniadau ar gyfer adrodd ar berfformiad apwyntiadau dilynol cleifion allanol, ond gan ganolbwyntio hefyd ar risg glinigol ac unrhyw achosion o niwed posibl, os dânt i'r amlwg.
- 87.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu cynlluniau i wella'r rheolaeth ar gleifion allanol, ond bydd cyflawni'r cynlluniau hyn yn llwyddiannus yn her. Mae trefniadau gweithredol byrdymor ar waith er mwyn helpu i leihau nifer yr apwyntiadau dilynol i gleifion allanol lle wynebier oedi. Yn gynnar yn 2014, sefydlodd y Bwrdd Iechyd grŵp gweithredol o dan yr enw Grŵp Gwella Apwyntiadau Dilynol Cleifion Allanol. O fewn cyfnod byr, mae'r grŵp wedi llwyddo i leihau nifer y cleifion ar y rhestr aros ar gyfer apwyntiadau dilynol ac yn cyflwyno gwelliannau i'r rheolaeth a'r prosesau gweithredol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi datblygu seiliau allweddol mewn rhai meysydd arbenigol er mwyn gwella gwasanaethau i gleifion allanol, ond mae angen gwneud gwaith pellach yn hyn o beth, ac mae arafwch y newid yn destun pryder.

Er bod llai o arian yn cael ei fuddsoddi mewn TGCh, dengys fy ngwaith diagnostig fod yr adnoddau TGCh yn y Bwrdd Iechyd yn cefnogi darpariaeth gofal iechyd ar y cyfan, er bod lle i integreiddio systemau a chryfhau trefniadau hyfforddi.

- 88.** Yn strategaeth flaenorol Llywodraeth Cymru, Gwella Iechyd yng Nghymru yn 2001, cydnabuwyd bod angen i wariant ar TGCh gynrychioli dau y cant o leiaf o gyfanswm y gwariant refeniw. Ym mlwyddyn ariannol 2013-14, roedd cyfanswm y gwariant ar TGCh o fewn y Bwrdd Iechyd, sef 0.73 y cant, hefyd yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. Mae'r lefelau staff TGC ar y cyfan yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru, ond bod y gyfran o staff rheoli gwybodaeth yn fwy, a'r gyfran o staff technegol TGCh yw'r isaf yng Nghymru. Fodd bynnag, dengys fy arolwg o staff y Bwrdd Iechyd y lefelau uchaf yng Nghymru o ran ymrwymiad uwch reolwyr i TGCh a chanfyddiad y meddygon o gyfleusterau TG, sy'n cynnig rhywfaint o sicrwydd ynghylch gwerth am arian.
- 89.** Yn rhan o'm harolygon staff, gofynnwyd i'r staff meddygol a nyrsio pa mor aml yr oedd hi'n amhosib iddynt ddefnyddio cyfrifiadur i gyflawni tasgau a chael gwybodaeth, gan nad oedd digon o gyfrifiaduron ar gael. Gwelais rywfaint o gyfle i integreiddio systemau clinigol yn well ac i sicrhau mynediad gwell at dechnoleg. Er hynny, mae systemau TGCh clinigol ar y cyfan yn cynorthwyo meddygon i ddarparu gofal i gleifion. Roedd staff nyrsio o fewn y Bwrdd Iechyd yn llai cadarnhaol na nyrsys eraill ledled Cymru ynghylch mynediad at gyfrifiaduron ar y wardiau.
- 90.** Yn ogystal â staff parhaol, mae'n bwysig hefyd bod staff dros dro a gyflogir i weithio mewn ardaloedd clinigol (gan gynnwys rhai a chanddynt gontractau anrhydeddus) yn derbyn yr

---

hyfforddiant TG a Gwybodaeth angenrheidiol. Ni nododd y Bwrdd Iechyd unrhyw grwpiau o staff dros dro (nyrsys asiantaeth, nyrsys banc, meddygon locwm a staff meddygol â chontractau anrhydeddus) sy'n derbyn hyfforddiant. Mae hyn yn groes i'r sefyllfa ledled Cymru, lle mae cyfran neu'r cyfan o'r grwpiau hyn o staff dros dro yn derbyn hyfforddiant.

**Er bod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i wella'r gwasanaeth nyrsio ardal yn rhan o'r ddarpariaeth ehangach o wasanaethau yn y gymuned, mae angen mynd i'r afael o hyd â llawer o'r problemau a nodais yn fy ngwaith archwilio blaenorol**

- 91.** Mae'r arweinwyr nyrsio yn chwarae rhan weithgar yn natblygiad gwasanaethau nyrsio ardal ledled Cymru, ac yn lleol mae ganddynt weledigaeth lefel uchel i gyflenwi mwy o ofal yn y gymuned. Mae'r Bwrdd Iechyd yn symud tuag at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig er mwyn cefnogi'r weledigaeth hon. Fodd bynnag, bydd angen datblygu'r weledigaeth yn fodelau gwasanaeth clir, ac nid yw wedi diffinio cylch gorchwyl na gofynion gweithlu'r gwasanaeth nyrsio ardal oddi mewn i'r gwasanaeth nyrsio cymunedol integredig newydd. Mae'r strwythur is-adrannol yn darparu llinellau atebolrwydd rheolaethol a phroffesiynol clir i gefnogi'r gwaith o gyflenwi'r gwasanaeth nyrsio ardal, ac mae'r trefniadau hyn yn gweithio'n dda.
- 92.** Nid oes gan y Bwrdd Iechyd ryw lawer o ddealltwriaeth ynghylch lefel y galw am wasanaethau nyrsio ardal ar lefel y sefydliad, ond mae gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â hyn. Mae rhai camau wedi cael eu cymryd yn lleol i wella'r rheolaeth ar y galw, ond mae angen gwella hyn ar raddfa'r bwrdd iechyd cyfan. Oherwydd hyn, mae'n dal yn anodd asesu a oes digon o gapasiti, er gwaetha'r cynnydd parhaus yn niferoedd y gweithlu. Ceir hefyd achosion anesboniadwy o amrywio yn nosbarthiad staff a'r defnydd ohonynt. Mae hyn yn golygu bod y Bwrdd Iechyd yn dal heb fod yn sicr ei fod yn gwneud defnydd effeithiol o staff mewn modd sy'n cyd-fynd â'r llwyth achosion. Er enghraifft:
  - o gymharu â byrddau iechyd eraill, mae staff yn treulio cyfran fwy o'u hamser yn rhoi gofal uniongyrchol i gleifion, ond ceir amrywio anesboniadwy o hyd yn y modd y caiff timau nyrsio ardal eu rhoi ar waith yn lleol; ac
  - mae llwythi gwaith yn dal heb eu rhannu'n gyfartal rhwng timau nyrsio ardal unigol; ac mae angen gwneud mwy i wella'r rheolaeth ar y llwyth achosion.
- 93.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i gynyddu ei allu i fonitro ac adrodd ar berfformiad yn systematig. Mae sawl fforwm yn bodoli i gefnogi cyfathrebu proffesiynol a gweithredol, ac mae'r Bwrdd yn gweithio i'w hatgyfnerthu eto. Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun i ymdrin â'r wybodaeth sydd ei hangen arno er mwyn monitro ac adrodd ar berfformiad, gan gynnwys adborth gan gleifion. Y mae hefyd yn buddsoddi mewn hyfforddiant ffurfiol i'w wasanaeth nyrsio ardal, ond ceir risgiau corfforaethol a gweithredol yn gysylltiedig â'r lefelau isel sy'n cydymffurfio â'r broses arfarnu, a pheth hyfforddiant statudol a gorfodol.

---

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd wrth ymateb i'm cyd-adolygiad dilynol o'r trefniadau ar gyfer Ansawdd Data, Adfer TG ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes a Caldicott, ond mae llawer mwy o waith i'w wneud

94. **Adolygu ansawdd data** - er bod y trefniadau llywodraethu gwybodaeth a'r polisi ar ansawdd data sydd wedi'i ddiweddarau yn creu'r sail i wella ansawdd data, canfûm yn fy adolygiad fod heriau o hyd wrth wella cywirdeb gwybodaeth y Bwrdd Iechyd. Dylai'r Grŵp Datblygu Gwybodaeth sicrhau bod gwelliannau i ansawdd data yn parhau i gael eu cynnwys ar agenda'r Bwrdd Iechyd.
95. **Adolygiad o'r trefniadau ar gyfer adfer ar ôl trychineb TG a pharhad busnes** - canfûm yn fy adolygiad fod gan y Bwrdd Iechyd dull safonol o adfer ar ôl trychineb ac o gynllunio parhad busnes, er na chaiff cynlluniau parhad busnes eu profi ryw lawer, ac er bod lle i atgyfnerthu'r dull mewn rhai adrannau. Ers cyhoeddi fy adolygiad dilynol, rydym wedi cael gwybod am faterion sydd wedi codi, fel difrod dŵr i system radioleg ac achos pan fethodd y rhwydwaith gan effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth gweithredol yn Ysbyty Brenhinol Gwent yn yr hydref.
96. **Adolygiad o drefniadau Caldicott** - canfûm yn fy adolygiad fod trefniadau Caldicott wedi'u datblygu'n dda o fewn y Bwrdd Iechyd, ond bod lle i wella eto drwy gytuno ar y dull strategol o lywodraethu gwybodaeth sydd wedi'i gynnwys yn y strategaeth e-lechyd, cwblhau'r rhaglen datblygu stiwardiaid llywodraethu gwybodaeth a hysbysu cleifion ynghylch sut y defnyddir eu gwybodaeth.

Ar y cyfan, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da wrth ymateb i'r argymhellion i wella gwasanaethau arlwygo a maeth. O hyn allan, mae angen iddo ganolbwyntio ar atgyfnerthu prosesau sgrinio a dogfennu maeth ac ar adroddiadau i'r Bwrdd, a sicrhau hefyd fod yr holl ardaloedd i gleifion wedi'u paratoi ar gyfer amseroedd prydau bwyd a bod cleifion yn cael cymorth prydol i fwyta

97. Mae'r trefniadau i fodloni anghenion dietegol a maethol cleifion yn gwella ond mae angen atgyfnerthu'r prosesau dogfennol sy'n gysylltiedig â sgrinio maeth. Caiff cleifion eu sgrinio am broblemau maethol ond mae dogfennau gwybodaeth sgrinio'n dameidiog ac yn anghyflawn.
98. Mae lle i wella rhai agweddau ar brofiadau amser bwyd, ond mae'r ffaith bod gan gleifion farn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch gwasanaethau bwyd yn addawol. Gall cleifion gael bwyd a diod 24 awr y dydd, ac mae trefniadau rheolaidd ar waith i fonitro cydymffurfio â'r llwybr gofal maethol. Mae gwybodaeth ysgrifenedig hefyd ar gael iddynt sy'n trafod yr hyn i'w ddisgwyl yn yr ysbyty, er nad yw'r wybodaeth hon yn cael ei dosbarthu'n eang. Nid yw pob claf yn cael cymorth yn brydlon yn ystod prydau bwyd, ac mae mwy o waith i'w wneud er mwyn paratoi amgylchedd y ward cyn y gwasanaethau prydau, gan gynnwys gweithredu egwyddorion diogelu amseroedd bwyd yn llawn.
99. Defnyddir mecanweithiau rheoli costau a systemau TG i reoli'r gwasanaeth. Er bod costau prydau cleifion yn debyg i gyfartaledd Cymru, cafwyd cynnydd o oddeutu 15 y cant mewn costau bwyd yn gysylltiedig â'r gwasanaeth arlwygo i gleifion dro gyfnod o dair blynedd, er bod cost prydau fesul claf yn parhau i fod yn gymharol sefydlog. Mae gwasanaethau arlwygo eraill, nad ydynt ar gyfer cleifion, yn gweithredu ar golled fechan, ac mae'r bwch rhwng yr



---

incwm o daliadau'r bwyty a chost cyflenwi'n gostwng. Cynhelir archwiliad rheolaidd o wastraff bwyd. Er bod y gwastraff yn is na'r targed cenedlaethol, mae'r trefniadau i fonitro ar lefel y wardiau'n anghyson.

- 100.** Mae'r strwythurau ar gyfer goruchwylio a chraffu ar wasanaethau arlwyo a maethol yn parhau i fod yn gadarn ar lefel weithredol ac ar lefel is-bwyllgor. Ceir atebolrwydd clir o ran y Weithrediaeth ac atebolrwydd gweithredol am gyflawni drwy'r Grŵp Llywio Maeth Clinigol, ac fe gaiff cynnydd ei fonitro'n rheolaidd yn y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion. Caiff perfformiad ei fonitro'n rheolaidd, ond nid yw'r adroddiadau i'r Bwrdd yn gynhwysfawr, gan ddibynnu ar yr Archwiliad Hanfodion Gofal blynyddol.

# Atodiad 1

---

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

Adroddiad	Dyddiad
<b>Adroddiadau archwilio ariannol</b>	
Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol	Mehefin 2015
Barn ar y Datganiadau Ariannol	Mehefin 2015
Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol y Cronfeydd Elusennol	Rhagfyr 2015
Barn ar Ddatganiadau Ariannol y Cronfeydd Elusennol	I'w gwblhau'n fuan ym mis Ionawr 2016
<b>Adroddiadau archwilio perfformiad</b>	
Adolygiad o Wasanaethau Orthopedig	Rhagfyr 2014
Adolygiad Rheoli Meddyginiaethau	Gorffennaf, 2015
Adolygiad o Apwyntiadau Dilydol Cleifion Allanol	Medi 2015
Adolygiad Diagnostig o Gapasiti ac Adnoddau TGCh	Tachwedd 2015
Adolygiad Dilydol o Arlwygo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai	Tachwedd 2015
Asesiad Strwythuredig 2015	Rhagfyr 2015
Adolygiad o Eiddilwch Gwent - Cam 2	Rhagfyr 2015
Gwaith dilydol cyfunol ar yr archwiliadau Gwybodeg a Thechnoleg Cyfathrebu	Mai 2015
Adolygiad Nyrsio Ardal	Chwefror 2015
<b>Adroddiadau eraill</b>	
Cynllun Archwilio 2015	Mawrth 2015

Mae nifer o archwiliadau perfformiad yn dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd hefyd. Dangosir y rhain isod, ynghyd ag amcan o'r dyddiadau cwblhau ar gyfer y gwaith.

	Amcan o'r dyddiad cwblhau
Adolygiad Dilydol o'r Contract Meddygon Ymgynghorol	Gorffennaf 2016
Adolygiad o Wasanaethau Radioleg	Gorffennaf, 2016
Adolygiad o Asiantaethau Nyrsio a Meddygon Locwm	Chwefror 2016

# Atodiad 2

---

## Ffi archwilio

Yng Nghynllun Archwilio 2015, nodwyd ffi archwilio arfaethedig o £426,655 (heb gynnwys TAW). Ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol yn unol â'r ffi a nodwyd yn y Cynllun Archwilio.

Mae cost y gwaith archwilio a wnaed mewn perthynas â'r gwasanaethau a rennir, ac a ddarperir i'r Bwrdd Iechyd drwy'r Bartneriaeth Cydwasanaethau, wedi'u cynnwys yn y ffi a nodir uchod.

# Atodiad 3

---

## Y prif risgiau wrth archwilio

Yn fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2015, nodwyd y prif risgiau archwilio ariannol ar gyfer 2015. Yn y tabl isod, rhestrir y risgiau hyn, a nodir sut yr ymdriniwyd â hwy yn rhan o'r archwiliad.

Risg archwilio	Ymateb archwilio a gynigiwyd	Y gwaith a wnaed a'r canlyniad
<b>Risgiau'r amgylchedd rheolaeth</b>		
Mae dyletswydd ar y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod <b>cofnodion cyfrifyddu a rheolaethau mewnol</b> cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod trafodion yn rheolaidd a chyfreithlon.	Bydd fy nhîm archwilio'n profi cofnodion cyfrifyddu a rheolaethau mewnol sydd ar waith er mwyn sicrhau bod trafodion yn rheolaidd a chyfreithlon.	Cynhaliwyd profion ar gofnodion cyfrifyddu a rheolaethau mewnol fel y cynlluniwyd, a chanfod eu bod yn gadarn. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth o drafodion afreolaidd nac anghyfreithlon.
Mae'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y gallai'r diystyru hwn fod yn anrhagwladwy, fe'i hystyrir yn risg sylweddol [ISA 240.31-33].	Bydd fy nhîm archwilio yn: <ul style="list-style-type: none"><li>• profi cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol er mwyn canfod a ydynt yn briodol;</li><li>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu er mwyn canfod unrhyw duedd; ac</li><li>• gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion sylweddol nad ydynt yn rhan o fusnes arferol.</li></ul>	Gwaith archwilio wedi'i gwblhau fel y cynlluniwyd. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth fod rheolwyr yn diystyru rheolaethau.

## Risg archwilio

## Ymateb archwilio a gynigiwyd

## Y gwaith a wnaed a'r canlyniad

### Rigiau wrth baratoi'r cyfrifon

Efallai y ceir risg sylweddol na fydd y Bwrdd Iechyd yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau ariannol statudol. Fodd bynnag, nid yw'n glir eto beth fydd y dyletswyddau ariannol statudol hynny, a bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau ar hyn yn fuan. Dangosai'r sefyllfa ym mis 10 ddiffyg hyd hynny yn y flwyddyn o £1.7 miliwn, a rhagwelwyd diffyg diwedd blwyddyn o £2.2 miliwn. Efallai y byddaf yn dewis llunio adroddiad sylweddol ar y datganiadau ariannol er mwyn egluro unrhyw fethiannau, a'r amgylchiadau a arweiniodd at y methiannau hynny.

Bydd fy nhîm archwilio yn ystyried ffocws eu profion ac unrhyw oblygiadau eraill i'm gwaith ar ôl cadarnhau'r dyletswyddau ariannol.

Yn ôl Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gyflawni dwy ddyletswydd ariannol statudol newydd. Cyhoeddais adroddiad naratif ochr yn ochr â'm tystysgrif archwilio i egluro'r dyletswyddau newydd, perfformiad y Bwrdd Iechyd yn eu herbyn, a'r goblygiadau ar gyfer 2015-16.

Mae'r **ddyletswydd ariannol gyntaf** yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i Fyrddau Iechyd o ran adnoddau, drwy eu galluogi i fantoli eu hincwm a'u gwariant dros gyfnod treigl o dair blynedd, gan ddisodli'r ddyletswydd i fantoli'r cyfrifon bob blwyddyn. Y cyfnod cyntaf o dair blynedd o dan y ddyletswydd hon yw 2014-15 i 2016-17.

Mae'r pwysau ariannol presennol ar y Bwrdd Iechyd yn cynyddu'r risg y gallai barn ac amcangyfrifon y rheolwyr ddangos tuedd mewn ymdrech i fodloni unrhyw ddyletswyddau ariannol a osodir.

Yr **ail ddyletswydd ariannol** yw dyletswydd newydd sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i fyrddau Iechyd baratoi cynllun tymor canolig integredig tair blynedd, a sicrhau cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer y cynllun hwnnw.

Risg archwilio	Ymateb archwilio a gynigiwyd	Y gwaith a wnaed a'r canlyniad
<b>Rigiau wrth baratoi'r cyfrifon</b>		
<p>Wrth ddisgwyl am ganllawiau Llywodraeth Cymru, mae'n bosibl y ceir risg arall sylweddol yn gysylltiedig â'r terfyn adnoddau cyfalaf blynyddol. Dangosai'r sefyllfa ym mis 10 danwariant hyd hynny yn y flwyddyn o £0.4 miliwn, ond rhagwelwyd y byddai'r gyllideb yn cael ei mantoli erbyn diwedd y flwyddyn.</p> <p>Mae'r pwysau ariannol presennol ar y Bwrdd lechyd yn cynyddu'r risg y gallai barn ac amcangyfrifon y rheolwyr ddangos tuedd mewn ymdrech i fodloni unrhyw ddyletswyddau ariannol a osodir.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn ystyried ffocws eu profion a goblygiadau eraill fy ngwaith ar ôl egluro dyletswyddau ariannol.</p>	<p>Gweler y blwch sylwadau uchod.</p>
<p>Ceir risg uchel na fydd y Bwrdd lechyd yn cyrraedd ei dargedau PTSC ar gyfer 2014-15 oherwydd y modd y mae'n ymdrin ag anfonebau sy'n destun ymchwiliad, a'r pwysau ar brosesu trafodion oherwydd prinder staff, a'r ffwythiant cyfrifon taladwy yn y bartneriaeth Cydwasanaethau.</p> <p>Mae polisi taliadau'r sector cyhoeddus a datgeliadau'n faes risg, o ystyried pryderon y llynedd na chydymffurfiwyd â chanllawiau Llywodraeth Cymru.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn archwilio PTSC gan gadw targed gweinyddol y Bwrdd lechyd mewn cof.</p>	<p>Cynhaliwyd gwaith archwilio fel y cynlluniwyd ac adroddwyd y canlyniadau wrth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yn Adroddiad Archwilio'r Datganiadau Ariannol ym mis Mehefin 2015. Ni fodlonwyd y targed gweinyddol. Ceir manylion pellach yn <a href="#">Arddangosyn 1</a> yr adroddiad hwn.</p>
<p>Ceir meysydd risg penodol y byddwn yn eu hadolygu yn dilyn archwiliadau'r blynyddoedd cynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>ceir risg yn gysylltiedig â chywirdeb a chysondeb yr ymdriniaeth wrth ailbrisiu peiriannau mawr, eiddo a chyfarpar ar i fyny, yn sgil mynegeio, ar ôl yr ansicrwydd yn 2013-14 ynghylch cymhwyso hynny i adeiladau newydd; ac</li> </ul>	<p>Bydd fy nhîm archwilio'n archwilio'r datganiadau ariannol gan roi sylw neilltuol i'r meysydd risg hyn, drwy gynnal profion â ffocws.</p>	<p>Gwaith archwilio wedi'i gwblhau fel y cynlluniwyd, gan gasglu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>bod yr ymdriniaeth â mynegeio er mwyn amcangyfrif gwerth asedau bellach yn unol â Llawlyfr Cyfrifon Llywodraeth Cymru. a</li> <li>bod yr amcangyfrifon ynghylch atebolrwydd am hawliadau Gofal lechyd Parhaus wedi'u datgan yn deg.</li> </ul>

Risg archwilio	Ymateb archwilio a gynigiwyd	Y gwaith a wnaed a'r canlyniad
<b>Risgiau wrth baratoi'r cyfrifon</b>		
<p>mae'r GIG yng Nghymru wedi derbyn nifer sylweddol o Achosion Gofal Iechyd Parhaus newydd, ac mae hyn yn cynyddu'r risg o gamddatgan yn y datganiadau ariannol oherwydd yr ansicrwydd ynghylch lefel yr atebolrwydd a ddyrannir i'r Bwrdd Iechyd.</p>		
<b>Risgiau'n gysylltiedig â'r datganiadau ariannol</b>		
<p>Mae'r <b>amserlen</b> ar gyfer llunio ac ardystio'r <b>cyfrifon blynyddol</b> yn parhau i fod yn feichus.</p> <p>Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sefydlu trefniadau priodol i baratoi'r cyfrifon a sicrhau bod papurau gwaith digonol yn cael eu darparu'n brydlon i'w harchwilio.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn gweithio'n agos â staff y Bwrdd Iechyd i fonitro cynnydd, ac yn ceisio datrys unrhyw faterion yn gysylltiedig ag amseru cyn gynted ag sy'n bosibl fel bo modd bodloni'r amserlen ar gyfer ardystio cyfrifon.</p>	<p>Bu'r tîm archwilio'n gweithio gyda staff y Bwrdd Iechyd, yn ôl y bwriad, i fodloni'r amserlen ar gyfer ardystio cyfrifon.</p>
<p>Caiff <b>y cyfrifon blynyddol</b> eu llunio'n unol â <b>Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a Llawlyfr Cyfrifon y GIG</b>. Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd gael dealltwriaeth lawn o'r <b>gofynion</b> hyn, gan ymateb i newidiadau a sicrhau y nodir ac yr ymdrinnir â risgiau a materion mewn modd priodol.</p> <p>Dyma rai meysydd risg penodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• amcangyfrifon, yn enwedig ar gyfer darparu gofal iechyd parhaus, gwariant ar ofal sylfaenol a gwasanaethau arbenigol;</li> <li>• trafodion sylweddol â phartion cysylltiedig; a</li> <li>• chywirdeb a chyflawnder yr Adroddiad ar Daliadau, o ystyried yr amryw o newidiadau i Aelodau Gweithredol ac Aelodau nad ydynt yn Swyddogion yn ystod y flwyddyn.</li> </ul>	<p>Bydd fy nhîm archwilio'n archwilio'r datganiadau ariannol gan ganolbwyntio'n arbennig ar y meysydd risg hyn, drwy gynnal profion â ffocws.</p>	<p>Profion archwilio â ffocws wedi'u cyflawni fel y cynlluniwyd ym mhob rhan berthnasol o'r datganiadau ariannol. Ni chefais hyd i unrhyw faterion o bwys i'w hadrodd.</p>

Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)